**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion cyfarfod hybrid y Cyngor a gafodd ei gynnal ddydd Mercher 25 Mai am 3.00pm.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Ashford | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd T Burnell |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Cook |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd R Davis |
| Y Cynghorydd V Dunn | Y Cynghorydd E L Dunning |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd A J Ellis |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd H Gronow |
| Y Cynghorydd B Harries | Y Cynghorydd S Hickman |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd G Hughes |
| Y Cynghorydd W Hughes | Y Cynghorydd K Johnson |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd G O Jones |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd M Maohoub | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd W. Owen |
| Y Cynghorydd D Parkin | Y Cynghorydd M Rees-Jones |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd J Smith |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd L A Tomkinson |
| Y Cynghorydd B Stephens | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd K Webb |
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd G E Williams |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd D Wood |
| Y Cynghorydd R Williams | |

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol ar-lein:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd L Addiscott | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd S J Davies | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd R Yeo |
| Y Cynghorydd R Evans | Y Cynghorydd Sera Evans |
| Y Cynghorydd N Morgan | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd D Owen-Jones | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd C Lisles |
| Y Cynghorydd C Preedy | Y Cynghorydd P Binning |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd D E |
| Y Cynghorydd J Turner | |

**Swyddogion a oedd yn bresennol yn Siambr y Cyngor:**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**153 Ymddiheuriad**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins

**154 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**155 Ethol Llywydd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD –** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes i fod yn Llywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23.

Yn dilyn hyn, cymerodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes y Gadair ac anerchodd y Cyngor yn ei rôl fel Llywydd.

**156 Ethol Dirprwy Lywydd y Cyngor**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn cynnig penodi dau Ddirprwy Lywydd yn rhan o strwythur democrataidd y Cyngor, a hynny i gyflawni swyddogaethau'r Llywydd yn ei absenoldeb fel Cadeirydd y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r trefniant yn sicrhau, o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, y byddai un o blith y tri Aelod ar gael i gadeirio cyfarfod hybrid yn y siambr. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd a ddarlledir yn fyw yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth. Pe bai'r Cyngor yn cytuno i'r cynnig, argymhellwyd y dylid penodi Llywydd a dau Dirprwy Lywydd newydd yn flynyddol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, ac y dylai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (yn rhinwedd ei rôl yn Swyddog Monitro) dderbyn awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn sgil hynny.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Penodi dau Ddirprwy Lywydd i strwythur y Cyngor i gyflawni swyddogaethau gweinyddol Cadeirydd y Cyngor yn absenoldeb y Llywydd;

2. Penodi dau Ddirprwy Lywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023 (yn eitem 4 ar yr agenda 'Etholiadau a Phenodiadau') ac yn flynyddol

yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi hynny; a

3. Y bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (yn rhinwedd ei rôl yn Swyddog Monitro) yn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau yn yr argymhellion uchod ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn sgil hynny.

**157 Etholiadau a Phenodiadau**

**Ethol Dau Ddirprwy Lywydd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD –** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sheryl Evans i fod yn Ddirprwy Lywydd cyntaf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23.

**PENDERFYNWYD –** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Barry Stephens yn ail Ddirprwy Lywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23.

**Derbyn anerchiad gan ddwy Faer y Cyngor ar gyfer 2021-2022.**

Manteisiodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto ar y cyfle i fyfyrio ar ei chyfnod yn Faer Rhondda Cynon Taf am ran gyntaf Blwyddyn y Cyngor 2021/22, cyn iddi hi ymddiswyddo yn dilyn cael ei phenodi'n Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. Diolchodd i bawb a oedd wedi ei helpu i godi swm sylweddol, mwy na £30,000 i'w helusennau, sef Help for Heroes, AP Cymru a 2 Wish, sy'n gwneud gwaith rhagorol yn y gymuned.

Diolchodd Maer diweddaraf y Fwrdeistref Sirol, y Cynghorydd W Treeby i'w rhagflaenydd, y Cynghorydd Jill Bonetto, a'i llongyfarch ar godi arian sylweddol yn ystod cyfnod anodd. Dywedodd y Cynghorydd Treeby ei bod hi wedi bod yn fraint cael bod yn Faer Rhondda Cynon Taf dros y misoedd diwethaf. Diolchodd i'r trigolion, y cymunedau a'r swyddogion oedd wedi ei chefnogi hi a'i helusennau.

Wrth ymateb i hyn, talodd Aelodau deyrnged i'r ddwy Faer, gan gymeradwyo a chanmol eu holl waith ac ymdrechion caled yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

**Ethol Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023.**

**PENDERFYNWYD -** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023.

Dywedodd y Cynghorydd Treeby ei bod hi'n anrhydedd enfawr gwasanaethu'n Faer Rhondda Cynon Taf yn ystod blwyddyn hanesyddol i'r fwrdeistref sirol wrth ddathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines, yn ogystal â chroesawu Baton y Frenhines sy'n dod i Rondda Cynon Taf unwaith yn rhagor cyn Gemau'r Gymanwlad. Cyfeiriodd at Ryddid y Fwrdeistref Sirol, a fydd yn cael ei gyflwyno i arwr rygbi Cymru, Neil Jenkins MBE, a hefyd i bob gweithiwr hanfodol yn y fwrdeistref sirol er mwyn cydnabod eu hymrwymiad drwy gydol y pandemig byd-eang.

Yn ystod ei chyfnod yn Faer RhCT, cyhoeddodd y Cynghorydd Treeby mai Ambiwlans Awyr Cymru, y Gymdeithas Strôc a Green Meadow Riding for the Disabled, fydd yr elusennau y bydd hi'n eu cefnogi. Bydd hi hefyd yn dal ati i gefnogi'r Lluoedd Arfog.

Dymunodd yr Aelodau'n dda i'r Maer newydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**Penodi Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023 - 2023.**

**PENDERFYNWYD -** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023.

Llongyfarchodd y Dirprwy Faer y Maer newydd, yn ogystal â diolch am yr anrhydedd o gael ei hethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2022-23.

**Penodi Arweinydd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD –** penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-23.

Diolchodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan i'r Grŵp Llafur am ei gefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a fu'n gyfnod anodd oherwydd covid-19 ac effaith y llifogydd ar gymunedau RhCT. Gwnaeth sylwadau am lwyddiant y Grŵp Llafur yn yr Etholiadau diweddar, wedi iddo ennill yr ail fwyafrif mwyaf gyda 59 o seddi.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod yr ugain ymrwymiad craidd wedi'u hanrhydeddu a'u cyflawni, a dywedodd y byddai'n lobïo Llywodraeth Cymru am ragor o gymorth drwy gydol misoedd y gaeaf mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.

**Cadarnhau bod Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf yn cael ei phenodi'n Arweinydd yr Wrthblaid.**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau penodiad Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan yn Arweinydd yr Wrthblaid.

Talodd Arweinydd yr Wrthblaid deyrnged i'w rhagflaenydd, y cyn Gynghorydd P Jarman am ei 46 mlynedd o wasanaeth i Blaid Cymru, a dywedodd ei bod hi a'i chydweithwyr yn edrych ymlaen at gydweithio ag Arweinydd y Cyngor mewn modd adeiladol er budd trigolion RhCT.

Llongyfarchodd Arweinwyr y Grwpiau eraill Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid.

**158 Swyddogaethau Gweithredol**

**PENDERFYNWYD** nodi'r Cabinet a'u swyddogaethau unigol, fel y ganlyn: -

- Y Cyng. A Morgan - Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Isadeiledd a Buddsoddi

- Y Cyng. M Webber - Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor
- Y Cyng. M Norris - Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant
- Y Cyng. R Lewis - Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg
- Y Cyng. G Caple - Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Cyng. B Harris - Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau
- Y Cyng. A Crimmings - Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden
- Y Cyng. C Leyshon - Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol Infrastructure & Investment

**159 Adolygiad - Trefniadau Trosolowg a Chraffu 2022-2027**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad, a oedd yn egluro'r trefniadau hanfodol ar gyfer tymor nesaf y Cyngor (2022-2027) ac yn amodol ar gytundeb yr Aelodau, gofynnodd am gymeradwyaeth i ddiwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r cynigion yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at y modelau craffu arfaethedig fel y'u nodir yn adran 6 o'r adroddiad, a fyddai'n cefnogi ac yn ymateb i ofynion a chyfarwyddyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Dywedodd y byddai'r gostyngiad yn nifer y pwyllgorau craffu yn arwain at gynnydd yn amlder y cyfarfodydd o'r cylch chwe wythnos presennol.

I gynorthwyo'r Aelodau, adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ar gylch gorchwyl arfaethedig pob un o'r pedwar pwyllgor craffu thematig, gan nodi unrhyw newidiadau i'r model presennol yn ôl yr angen.

I gloi, amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y rhesymau dros y newidiadau arfaethedig i'r strwythur craffu megis cydbwyso Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu a chaniatáu rhagor o waith rhag-graffu ar benderfyniadau allweddol y Cabinet a fydd yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor ymhellach.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cefnogi argymhellion 'Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd' mewn perthynas â threfniadau craffu arfaethedig y Cyngor yn y dyfodol, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad yma;

2. Cytuno y byddai Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor Craffu yn cael ei adolygu, ei fireinio a'i gytuno gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn y CCB, yn dilyn cytundeb ymlaen llaw gan y Cadeiryddion

ac Is-gadeiryddion Craffu.

3. Cytuno i roi awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (yn rhinwedd ei rôl yn Swyddog Monitro) i ddiweddaru Cyfansoddiad y Cyngor yn briodol i adlewyrchu'r newidiadau i Gylchoedd Gorchwyl y Pwyllgorau, unwaith y byddan nhw wedi'u cytuno.

**160 Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor**

Yn ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, wrth yr Aelodau am ganlyniad yr adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ganlyniadau'r adolygiad a gynhaliwyd a'r seddi sydd ar gael sydd angen eu llenwi gan y grwpiau gwleidyddol priodol fel y nodir yn nhablau A a B yr atodiad i'r adroddiad. Cyfeiriodd hefyd at y dyraniad o Gadeiryddion pwyllgorau craffu yn amodol ar gytuno ar y trefniadau craffu diwygiedig a gynhigiwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd fod Adran 5 yn gofyn i'r Cyngor benderfynu ar ddyraniad yr hysbysiadau cynnig ar gyfer blwyddyn newydd y Cyngor, ac y gofynnir am awdurdod hefyd ar gyfer y penodiadau i'r Pwyllgorau unwaith y derbynnir yr enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol.

**PENDERFYNWYD-**

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.

2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, pan fydd yn derbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grŵp gwleidyddol, yn amodol ar dderbyn unrhyw geisiadau dilynol i newid aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'u cyfeirio at y Cyngor.

3. Bod y dyraniad o ran cyflwyno Rhybuddion o Gynnig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023 fel y ganlyn:

Llafur - 12
Plaid Cymru - 5
Grŵp Annibynnol RhCT - 2
Y Blaid Geidwadol - 1

(**Nodyn:** Cafodd cynnig a gollwyd i newid dyraniad y Rhybuddion o Gynnig o’r hyn a nodir *i Llafur - 12, Plaid Cymru - 4, Grŵp Annibynnol RhCT - 3 a'r Blaid Geidwadol - 1,* ei gynnig gan y Cynghorydd M Powell a'i eilio gan y Cynghorydd C Lisles).

**161 Cyfansoddiad y Cyngor – Newidiadau Arfaethedig**

Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y diwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ar y cyd sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i'r diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad fel y'u hamlinellir yn Atodiadau A, B, C a D i'r adroddiad. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y cynigion yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol gan gynnwys newidiadau canlyniadol sydd eu hangen yn sgil darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Daeth y mwyafrif o'r rhain i rym ar 5 Mai 2022.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y crynodeb o ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a nodir yn adran 5.1 o'r adroddiad a ddaeth i rym ar 5 Mai 2022.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD** cytuno ar y diwygiadau arfaethedig sy'n ymwneud â Chyfansoddiad y Cyngor fel y'u nodwyd yn atodiadau A, B, C a D, ac yn yr adroddiad fel y ganlyn:

Atodiad A (Rhan 1 – Canllaw Cryno ac Eglurhad);
Atodiad B (Rhan 2 – Erthyglau'r Cyfansoddiad);
Atodiad C (Rhan 3 – Cyfrifoldeb am Swyddogaethau - dyfyniad); a
Atodiad D (Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefn - dyfyniad)

**162 Penodi Aelodau Pwyllgorau 2022-2023**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad, a oedd yn gofyn am benodi Pwyllgorau canlynol y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023:

**PENDERFYNWYD** Penodi'r Pwyllgorau sydd wedi'u nodi isod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023:-

a) Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (11 Aelod)
b) Pwyllgor Trwyddedu (11 Aelod)
c) Pwyllgor Penodi (5 Aelod)
ch) Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion (5 Aelod)
d) Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (14 Aelod)
dd) Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant (14 Aelod)
e) Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned (14 Aelod)
f) Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant (14 Aelod)
ff) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (6 Aelod)
g) Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd (17 Members)
ng) Y Pwyllgor Safonau (2 Aelod)
h) Pwyllgor y Cyfansoddiad (8 Aelod)
i) Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (5 Aelod)
j) Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (5 Aelod)

**163 Penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion 2022-2023**

Yn ei adroddiad gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, am ystyriaeth i benodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i Bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023, a chadarnhau pa rolau Cadeiryddion Pwyllgorau a fydd yn gymwys ar gyfer uwch gyflog yn unol â'r gofynion. gyda phenderfyniadau'r IRP. **PENDERFYNWYD:**

1. Penodi'r Aelodau canlynol i swyddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion:

| **Committee** | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio a Datblygu | S Rees | W. Lewis |
| Trwyddedu | A S Fox | D H Williams |
| Apwyntiadau | R Davies | M. Webber |
| Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion | R Williams | G Holmes |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | M Norris | M Ashford |

2. Penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber yn Is-gadeirydd ar y pwyllgor hwnnw, yn unol â'r amodau a bennwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y 'Mesur');

3. Nodi, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 20 Hydref 2021, cytunwyd i ymestyn tymor swydd yr Aelod Lleyg presennol a benodwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Mr. Christopher Jones, tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol arferol ym mis Mai 2027 (sydd wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd ar gyfer Mai 2027).

4. Cytuno y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn gyfrifol am benodi'r Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwnnw;

5. Bod penodiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn cael ei ddyrannu i Grŵp Plaid Cymru;

6. Yn unol â'r enwebiadau a dderbyniwyd gan y Grwpiau Gwleidyddol priodol, bod yr Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sydd wedi'u nodi isod:--

| **Pwyllgor** | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|
| | | |
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu | J Edwards | M Rees-Jones |
| Addysg a Chynhwysiant | Sera Evans | K Webb |
| Gwasanaethau Cymuned | J Bonetto | G Williams |
| Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant | C Middle | G Warren |
| | | |

7. Nodi penodiad y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd - y Cynghorwyr G. Hughes a Sheryl Evans - yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu

Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol, yn y drefn honno;

8. Nodi, ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023, y bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (JOSC) yn cael eu penodi gan y Cydbwyllgor hwnnw; a

9. Bod y 19 swydd a ganlyn, sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso ac a fyddai'n denu Cyflogau Uwch Swyddogion, i'w talu gan y Cyngor yma ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23 yn y modd canlynol:

| **SWYDD** | **SWM (£)** |
|---|---|
| **Arweinydd** | £63,000 |
| **Dirprwy Arweinydd** | £44,100 |
| **Swyddogion Gweithredol (Aelodau'r Cabinet) (6 swydd)** | £37,800 |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** | £25,593 |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Materion Trwyddedu** | £25,593 |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** | £25,593 |
| **Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu (3)** | £25,593 |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Apeliadau** | £25,593 |
| **Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd** | £25,593 |
| **Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn** | £25,593 |
| **Llywydd** | £25,593 |
| **Arweinydd yr Wrthblaid (y grŵp mwyaf)*** *rhaid ei dalu yn amodol ar fodloni meini prawf perthnasol | £25,593 |

**164 Cyrff Lled Farnwrol/Pwyllgorau Ad Hoc 2022-2023**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd ei adroddiad mewn perthynas â phenodi Aelodau i'r Pwyllgorau Lled-Farnwrol/Pwyllgorau Ad Hoc ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022 - 2023 yn amodol ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor fel y nodir isod:

**PENDERFYNWYD** penodi'r canlynol:

1. Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (5 Aelod). (4 Llafur, 1 Plaid Cymru):
   Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Lewis, G Stacey, J Brencher, S Hickman a Sera Evans

2. Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo (5 Aelod – 4 Llafur, 1 Plaid Cymru):
   Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Webber, L Tomkinson, J Bonetto, G Jones a D Grehan.

3. Cydbwyllgor Ymgynghori (4 Aelod):
   Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Crimmings, R Lewis, M Webber ac A Morgan

**165 Cyrff Allanol**

Ar ôl ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu **PENDERFYNWYD -** y byddai'r Aelodau isod yn cael eu penodi i'r Cydbwyllgorau Anweithredol a'r Cyrff Allanol canlynol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-2023: -

- Age Concern Cymru (1 cynrychiolydd) y Cynghorydd G Caple
- Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (C.L.A.W.) (1 cynrychiolydd) y Cynghorydd C Leyshon
- Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon (1 cynrychiolydd) Y Cynghorydd Andrew Morgan
- Elusen Edward Thomas (4 cynrychiolydd) y Cynghorwyr R Lewis, R Williams, A Fox, M Rees Jones
- Cyngor Cyswllt Cymru (2 gynrychiolydd) y Cynghorwyr M Webber a C Leyshon
- Y Gynghrair (3 chynrychiolydd) y Cynghorwyr S Powderhill, G Jones, E Dunning
- Pwyllgor Cyswllt Safle'r Tŵr (3 chynrychiolydd) y Cynghorwyr K Morgan, L Addiscott a Scott Emanuel
- Tribiwnlys Prisio Cymru - Panel Penodi (1 cynrychiolydd) y Cynghorydd C Leyshon
- Bwrdd Canolfan Cydweithredol Cymru (1 cynrychiolydd) y Cynghorydd M Norris
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (5 cynrychiolydd) Y Cynghorwyr A Morgan, M Webber, M Norris, R Lewis a C Leyshon
- Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (1 cynrychiolydd / 1 is-gynrychiolydd) y Cynghorydd A Morgan a'r

Cynghorydd M Webber yn y drefn honno

- Bwrdd Llywodraethwyr Coleg y Cymoedd (1 cynrychiolydd) Mrs G Davies
- Ymddiriedolaeth Judges Hall (1 cynrychiolydd) y Cynghorydd G Hughes)
- Cist Gymunedol RhCT (1 cynrychiolydd) y Cynghorydd A Crimmings
- Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid (1 cynrychiolydd) y Cynghorydd C Preedy
- Trivallis (1 cynrychiolydd) y Cynghorydd B Stephens

- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (4 cynrychiolydd) y Cynghorwyr S Bradwick, A Roberts, G Holmes a D Parkin

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APC)(1 cynrychiolydd) y Cynghorydd S Emmanuel

  (**Noder:** Roedd yr Aelodau a ganlyn yn dymuno i'w henwau gael eu cofnodi fel rhai a bleidleisiodd o blaid penodi'r Cynghorydd Adam Owain Rogers yn gynrychiolydd ar gyfer APC Bannau Brycheiniog:
  Y Cynghorwyr K Morgan, Sera Evans, D Evans, C Lisles, A Ellis, D Grehan aC M Powell)

- Panel Troseddau Heddlu De Cymru (2 gynrychiolydd) y Cynghorwyr B Harris a L Addiscott

- Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf (3 chynrychiolydd) y Cynghorwyr Martin Ashford, Emma Dunning ac Amanda Ellis

**166 Calendr o Gyfarfodydd ar gyfer 2022-2023**

Drwy ei adroddiad, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, am gymeradwyo'r Calendr Cyfarfodydd ar gyfer Bl y Cyngor 2022-2023, sydd i'w weld fel Atodiad.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at yr elfen o hyblygrwydd y byddai ei ang symud ymlaen ac y byddai calendr llawn yn cynnwys y cynigion Craffu a gytunw ynghynt a'r model diwygiedig yn cael ei gynnwys i'w ddosbarthu.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad

2. Cytuno fydd dim cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r ysgol, c mater brys yn galw (ac eithrio'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu);

3. Cytuno ar y Calendr Cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer y Blwyddyn y Cyng fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad;

4. Nodi bod y calendr yn destun newid, yn seiliedig ar ofynion busnes dros f y Cyngor. Caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau eu gwneud ar y c

chadeiryddion y pwyllgorau priodol;

5. Nodi y cynhelir arolwg o ddewisiadau'r holl Aelodau ynghylch amseriad cy yn y dyfodol yn ystod y tri mis nesaf yn unol ag Adran 6 o Fesur Llywodra 2011 fel y'i diwygiwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm**

**Cllr G Hughes**
**Cadeirydd.**